



LLAWLYFR LLWYBRAU DYSGU CA4



2018-2020

KS4 LEARNING
PATHWAY HANDBOOK



Rhagarweiniad

Ysgol Gyfun Gymraeg

BRO MYRDDIN

Welsh Comprehensive School



Croesyceiliog
Caerfyrddin / Carmarthen
SA32 8DN

Ffôn / Tel: (01267) 234829

E-bost / E-mail:

swyddfa@bromyrdin.sirgar.sch.uk

Pennaeth / Headteacher : Dr Llinos Jones

Annwyl Rieni

Mae'n bleser gennyf i gyflwyno y llyfryn dewisiadau hwn i'ch sylw. Hyderaf y bydd yn gymorth i chi a'ch plentyn wrth ddewis cyrsiau addas ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Dyma gyfnod cyffrous a phwysig i'ch plentyn wrth gamu o flwyddyn 9 i flwyddyn 10.

Mae'n gyfnod dwys o feddwl a gwneud penderfyniadau. Mae'n holl bwysig, wrth gwrs eich bod yn trafod eich dewisiadau yn llawn gydag athrawon pwnc eich plentyn cyn cyrraedd y penderfyniad terfynol.

Cewch gyfle i wneud hynny yn y Noson Opsiynau a gynhelir rhwng 5.00 a 6.30yh ar nos lau, Chwefror y 8fed, 2018. Fe fydd noson rhieni Blwyddyn 9 hefyd yn cael ei chynnal rhwng 4:00 a 6:00 ar Nos lau, Mawrth y 22ain, 2018 i drafod perfformiad presennol eich plentyn. Os byddwch am gyfarwyddyd neu sgwrs bellach, bydd Mr Steffan Davies, Pennaeth Blwyddyn 9, yn barod i'ch cynorthwyo.



Pob hwyl gyda'ch penderfyniadau.

Yn gywir iawn

Dr Llinos Jones
Pennaeth




Eco-Scoff
Eco-Schools



Cyngor Celfyddydol Cymru
Arts Council of Wales



Supported by
The National Lottery
Y Loteri Genedlaethol



centre
of excellence
in Financial Education

Beth yw TGAU?

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

Cyflwynir graddau yn ôl wyth gris a ddynodir â'r llythrennau A*-G. Bydd yr arholiadau nid yn unig yn profi'ch cof a'ch gallu i gyflwyno ffeithiau ond hefyd yn profi'ch dealltwriaeth, eich sgiliau ymarferol a'ch gallu i gymhwyso gwybodaeth.

Beth yw Llwybrau Mynediad?

Cwrs yw'r **Llwybrau Mynediad** a luniwyd gan Gyd-Bwyllgor Addysg Cymru i baratoi disgyblion ar gyfer gwaith. Mae'n briodol i'r rhai nad ydynt yn perfformio'n dda mewn arholiadau. Bydd rhai disgyblion yn cyfuno rhai pynciau **LLM** gyda rhai pynciau TGAU. Mae tua 80% o'r asesiad wedi'i selio ar waith dosbarth, gwaith llafar, prosiectau a gwaith ymarferol.

Opsiynau

Ar gyfer y flwyddyn academiaidd 2018-2020 bydd pob disgybl yn astudio'r pynciau gorfodol canlynol i'r lefelau a argymhellir gan eu hathrawon pwnc :

- Cymraeg
- Saesneg
- Mathemateg
- Gwyddoniaeth
- Bagloriaeth Cymru

Yn ogystal, bydd pob disgybl yn dewis tri phwnc opsiwn, un o bob un o'r blociau opsiwn , a byddant yn eu hastudio trwy gydol Blynnyddoedd 10 ac 11 . Mae'n bwysig bod disgyblion yn dewis yn ddoeth ym Mlwyddyn 9 , oherwydd efallai na fydd yn bosibl i wneud newidiadau ar ôl iddynt fynd i mewn i Blwyddyn 10 .

Mae pob disgybl hefyd yn dilyn cyrsiau diartholiad mewn Addysg Gorfforol ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol , sy'n cynnwys gwersi ar lechyd ac Addysg Rhyw, Gyrfaoedd a Phrofiad Gwaith.(Gall rhieni gyda rhesymau dilys, wneud cais ysgrifenedig yn gofyn am ganiatad y Pennaeth i dynnu eu plentyn allan o wersi Addysg Rhyw.)

Yn ogystal, yn y gwersi pwnc ac ABCh, bydd disgyblion yn cael y cyfle i ddatblygu eu sgiliau meddwl a'u gallu i weithio gydag eraill a gwella eu dysgu eu hunain.


Parch at iaith

Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol a'r mwyafrif helaeth o wersi academiaidd. Mae'r ysgol yn falch o'i hethos Cymreig ac yn gweithredu i sicrhau fod hyn yn cael ei gynnal ar gyfer pob carfan newydd o ddisgyblion. Mae yn orfodol i ddisgyblion i siarad Cymraeg o gwmpas yr ysgol, mewn gweithgareddau allgyrsiol ac mewn gwersi sy'n cael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnir i rieni gefnogi'r ysgol yn hyn o beth trwy annog eu plant i siarad Cymraeg, i barchu Cymreictod yr ysgol a'u hannog hwy i wneud eu gorau i hybu hyn ar bob achlysur.



Eich Ffeil Cynnydd

Fe fydd pob disgybl yn cael 'Proffil' wrth adael yr ysgol ar ddiwedd Blwyddyn 11. Llyfryn yw hwn sydd yn cofnodi pob agwedd o'r weithgaredd y disgybl yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol. Mae'r diagram isod yn dangos y broses o gynhyrchu'r proffil.



Beth yw pwrpas y Proffil?

Mae'r proffil yn cofnodi pob agwedd o weithgaredd y disgybl - dim gwaith yn y dosbarth yn unig - ond hefyd - gweithgareddau, diddordebau, a chyraeddiadau o bob math yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol, e.e. Yr Urdd, Ffermwyr Ifainc, Rygbi, gwaith i elusennau neu unrhyw weithgaredd canmoladwy yn y gymuned a all gael ei wireddu. Y pwrpas felly, yw, rhoi darlun cyflawn o'r disgybl fel person.

Pwy fydd yn cynhyrchu'r Proffil?

Fe fydd pob athro sydd yn dysgu'r disgybl yn ystod blwyddyn 7, 8, 9, 10 ac 11 yn cyfrannu at y proffil ac yn cofnodi lefel gwaith academiaidd y disgybl. Hefyd, bydd yr athro dosbarth yn rhoi cyfle yn rheolaidd i'r disgyblion i gofnodi eu gweithgareddau, diddordebau, a.y.y.b. mewn dyddiadur a ffeil cofnodi cyrraedd. Mae cofnod personol y disgybl yn rhan bwysig iawn o'r proffil.

Pwy fydd a diddordeb yn y Proffil terfynol?

Mae'r broses uchod bellach yn un genedlaethol. Felly mae cyflogwyr / colegau yn gyfarwydd a'r proffil ac yn ei ddefnyddio fel ffordd gyflym o gael darlun cyflawn o unigolyn.

Addysg Bersonol a Chymdeithasol / Gyrfau

Yn ystod Blynnyddoedd 10 ac 11 mae'r disgyblion yn dilyn cwrs statudol mewn Addysg Bersonol a Chymdeithasol a Gyrfau. Mae'r cwrs yn cynnwys unedau o waith ar faterion cymdeithasol megis :

i) Alcohol a Chyffuriau;

ii) Parch a Pherthynas (yn cynnwys adran ar Addysg Ryw).

Paratoir y disgyblion ar gyfer arholiadau allanol trwy gyflwyno uned o waith ar sgiliau pwrpasol sy'n eu cynorthwyo i drefnu gwaith cwrs ac adolygu. Mae pob disgybl yn derbyn allbrint yn rhestru y math o swyddi sy'n addas ar eu cyfer, yn ôl ei ddiddordebau a'i allu mewn gwahanol bynciau. Yn ogystal cyflwynir unedau o waith ar:



i) Byd Gwaith:

Ar ddiwedd Blwyddyn 10 cynhelir Cynhadledd Byd Gwaith i gyd-redeg â'r cyfnod (gorfodol) o Brofiad Gwaith.

Y bwriad yw defnyddio'r diwrnod cyntaf o'r Gynhadledd i baratoi'r disgyblion ar gyfer eu profiad gwaith - o safbwynt disgwyliadau'r cyflogwyr, ymddygiad y disgybl, a'r rheolau lechyd a Diogelwch perthnasol yn ogystal â rhoi syniad i'r disgyblion o sefyllfaoedd gwaith amrywiol.

Yn dilyn yr wythnos o brofiad gwaith, cynhelir ail ddiwrnod y Gynhadledd, lle bydd cyfle i'r disgyblion i ymateb yn ôl ar eu cyfnod Profiad Gwaith mewn grwpiau. Bydd cyfle hefyd iddynt drafod yr amrywiaeth o swyddi a welsant o fewn y gwahanol feysydd cyffredinol.

Mae'r profiadau uchod yn rhai gwerthfawr ac mae'r mwyafrif helaeth o'r disgyblion yn eu mwynhau yn fawr. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau manwl wrth leoli disgybl. Gwneir defnydd o'r profiad gan adrannau eraill o fewn yr ysgol er mwyn hyrwyddo gwaith ffolio a gwaith llafar tra'n paratoi ar gyfer TGAU.

Addysg Gorfforol

Pam astudio'r pwnc?

Mae hwn yn gyfle i ti ddilyn pwnc ymarferol sydd yn galw arnat i gymhwyso gwybodaeth ddamcaniaethol i sefyllfaoedd ymarferol er mwyn gwella perfformiad dy hunan ac eraill. Gall y cwrs yma arwain i yrfa o fewn chwaraeon fel perfformiwr, hyfforddwr neu ddyfarnwr neu mae'r cynnwys bioleg ddynol yn sail dda i gyrsiau fel ffisiotherapi neu feddyginiaeth.

Beth yw cynnwys y cwrs?

Wrth astudio'r cwrs hwn byddi di yn cael y cyfle i berfformio fel chwaraewr, hyfforddwr neu ddyfarnwr yn ogystal â defnyddio dy wybodaeth ddamcaniaethol i werthuso, cynllunio a mireinio tactegau a thechnegau. Hefyd byddi di yn mesur lefelau ffitrwydd a chynllunio rhaglenni gwella ffitrwydd dy hun ac eraill. Hefyd bydd disgwyl i ti ddatblygu dy sgiliau cyfathrebu, trafod ac arwain wrth werthuso a mireinio perfformiad dy hun ac eraill

A oes gwaith cwrs neu dasgau o dan reolaeth yn y pwnc?

Fe fydd asesiad o dri gweithgaredd ymarferol. Bydd rhaid perfformio mewn un gweithgaredd unigol, un gweithgaredd tim ac un arall. Yn ogystal â hyn bydd disgwyl i chi i greu proffil ffitrwydd a dilyn rhaglen ymarfer 12 wythnos sy'n gysylltiedig â'ch prif gweithgaredd. Mae'r rhan yma werth 50% o'r cwrs.

Cyswllt:
Mr
John
Norgrove

Pa haen arholiad byddaf yn sefyll?

Mae pawb yn dilyn yr un cwrs.



A fyddaf yn cael fy setio yn y pwnc?

Nid ydy'r Adran Addysg Gorfforol yn setio. Mae'r adran ar hyn o bryd yn trafod y posibilrwydd o gynnig cwrs IVQ chwaraeon ym mis Medi.



A oes arholiad yn y pwnc?

Mae yna un arholiad o awr a hanner ac sydd werth 50% o'r cwrs. Fe fydd y cwestiynau yn orfodol ac yn asesu dy wybodaeth o faterion cyfoes yn chwaraeon, iechyd a lles yn ogystal â dy wybodaeth o ffactorau corfforol, seicolegol a thactegol/technegol sy'n cael dylanwad ar berfformiad, iechyd a lles.

O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Os wyt am fwy o wybodaeth gallu di drafod gyda dy athrawon Addysg Gorfforol neu ddilyn y linc i'r dudalen we briodol

www.cbac.co.uk

Astudiaethau Crefyddol

Pam astudio'r pwnc?

- ❖ Mae cyflogwyr yn ystyried Astudiaethau Crefyddol yn gymhwyster arbennig o dda.
- ❖ Mae yn dy baratoi ar gyfer gweithio gyda phobl o ddiwylliannau a chredoau gwahanol.
- ❖ Mae'n dy annog i wrando ar safbwyntiau pobl eraill a thrafod gwahanol bynciau moesol.
- ❖ Mae'n agor dy feddwl ac yn ehangu gorwelion



Beth yw cynnwys y cwrs?

Ym Mlwyddyn 10 **Uned 1: Crefydd a Themâu Athronyddol:**
Materion yn ymwneud â Bywyd, Marwolaeth, Daioni a Drygioni.

Ym Mlwyddyn 11 **Uned 2: Crefydd a Themâu Moesegol:**
Materion yn ymwneud â Pherthnasodd a Hawliau Dynol

A fyddaf yn cael fy setio yn y pwnc?

Na.



A oes arholiad yn y pwnc?

Oes. Mae un arholiad ysgrifenedig ar ddiwedd Blwyddyn 10 sy'n 2 awr. 50% o'r cymhwyster. Hefyd mae arholiad ysgrifenedig ar ddiwedd Blwyddyn 11 sy'n 2 awr. 50% o'r cymhwyster. Canlyniad: Cymhwyster TGAU llawn.

A oes gwaith cwrs neu dasgau o dan reolaeth yn y pwnc?

Nac oes. Dim ond arholiad.

O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Dowch i siarad a'r athrawon yn yr adran neu ewch i wefan CBAC a chwiliwch am y Fanyleb.

Cyswllt:
Mrs
Gwenan
Morgans



Pa haen arholiad byddaf yn sefyll?

Un haen i bawb.

Dylunio a Thechnoleg: ADEILADWAITH LEFEL 2

Pam astudio'r pwnc?

Os ydych â diddordeb mewn cwrs sydd yn eich paratoi ar gyfer gweithio yn y diwydiant adeiladwaith - dyma'r **un** i chi.

Mae'r diwydiant adeiladwaith yn cyflogi dros 2.5 miliwn o weithwyr yn y Deyrnas Unedig. Mae'r holl swyddi angen hunan gymhelliant, sgiliau rhifedd, cyfathrebu a datrys problem, ynghyd â sbectrwm eang o sgiliau technegol gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol gysylltiedig. Gallwch ddefnyddio'r cymhwyster ar gyfer cais i brifysgol neu fel llwybr dilyniant i amrediad eang o Gymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol mewn Adeiladwaith a dyfarniadau eraill.



A fyddaf yn cael fy setio yn y pwnc?

Mae'r dosbarthiadau yn rhai gallu cymysg.

Beth yw cynnwys y cwrs?

Mae'r cwrs yn gyfle i chi ddysgu am y diwydiant adeiladu trwy astudio'r meysydd canlynol:

- Technegau ymarferol sydd yn gysylltiedig â'r diwydiant adeiladu.
- Prosesau a thechnegau ar gyfer cynnal a chadw adeiladau.
- Iechyd a diogelwch yn y gweithle.

A oes gwaith cwrs neu arholiad?

Byddwch yn cael eich asesu trwy asesiad mewnol ar waith cwrs. Bydd arholiad ar ddiwedd blwyddyn 10.



Cyswllt:
Mr
Steffan
Davies

O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Os ydych am fwy o wybodaeth gallwch drafod yr opsiwn gyda'ch athro Adeiladwaith, neu'r Pennaeth Adran.



Amaethyddiaeth

TYSTYSGRIF ESTYNEDIG BTEC MEWN AMAETHYDDIAETH

Pam astudio'r pwnc?

Os oes gyda thi ddiddordeb mewn gweithio yn y diwydiant amaethyddiaeth a chefn gwlad mae hon yn gwrs addas i ti. Gallu di ddatblygu sgiliau ymarferol cychwynnol ac yn ogystal dealltwriaeth a gwybodaeth i dy alluogi i weithio'n ddiogel ar fferm neu ystâd weledig. Mae'r cwrs hwn yn cael ei redeg mewn partneriaeth gyda Coleg Sir Gar ac yn cael ei ddysgu gan arbenigwyr yn y maes. Mae'r cwrs hwn cyfwerth â dau TGAU. Nid oes yn rhaid i ti gael unrhyw wybodaeth arbennig cyn dechrau astudio'r cwrs hwn.

A fyddaf yn cael fy setio yn y pwnc?

Na. Byddi di yn astudio mewn dosbarth gallu cymysg.

Beth yw cynnwys y cwrs?

Bydd y cwrs yn rhoi'r cyfle i ti ddatblygu llawer o sgiliau a gwybodaeth. Bydd yn rhaid i ti astudio 3 uned o waith. Bydd yr unedau hyn yn dy alluogi i ddatblygu dy sgiliau yn y meysydd:

- ❖ Gweithredu Peiriannau Amaethyddol
- ❖ Sgiliau Amaethyddol Ymarferol
- ❖ Cynhyrchu Anifeiliaid Fferm.

Wrth astudio'r cwrs hwn byddi di yn cael y cyfle i ddatblygu dy sgiliau ymarferol ar fferm leol yn ogystal ag astudio yn y dosbarth.

A oes arholiad yn y pwnc?

Nac oes.

A oes gwaith cwrs neu dasgau o dan reolaeth yn y pwnc?

Bydd disgwyl i ti gyflwyno portffolio o waith a fydd yn cynnwys tystiolaeth yn dod o rai o'r aseiniadau, profion ymarferol ac arsylwadau y byddi di yn eu cwblhau naill ai yn y dosbarth neu ar fferm leol.



Cyswllt:
Miss
Zelda
Williams

O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Gallu di siarad gyda Miss Z Williams.

Astudiaethau Busnes

Pam astudio'r pwnc?

Mae hwn yn bwnc a fydd yn dy baratoi ar gyfer y byd gwaith ac yn dy wneud yn ymwybodol o faterion cyfredol sy'n effeithio busnesau a'r economi. Fe fyddi'n cael y cyfle i ymweld â busnesau go iawn a hefyd y cyfle i gymryd rhan mewn cystadlaethau Menter.

Beth yw cynnwys y cwrs?

Prif amcan y cwrs yw rhoi dealltwriaeth o'r ffordd mae busnesau'n gweithredu mewn amgylchedd ddeinameg, newidiol a chystadleuol. Mi fyddi'n astudio 6 Uned – Gweithgaredd busnes, Dylanwadau ar fusnes, Gweithrediadau busnes, Cyllid, Marchnata, Adnoddau dynol

A oes arholiad yn y pwnc?

Ar ddiwedd y cwrs bydd 2 arholiad:

Uned 1: Byd Busnes

Arholiad ysgrifenedig 2 awr
62.5% o'r cymhwyster, 100 marc
Cymysgedd o atebion byr a chwestiynau strwythuredig yn seiliedig ar ddeunydd ysgogi ym ymdrin â holl gynnwys y fanyleb.

Uned 2: Canfyddiadau Busnes

Arholiad ysgrifenedig 1 awr 30 munud
37.5% o'r cymhwyster, 60 marc
Cwestiynau ymateb i ddata yn ymdrin â holl gynnwys y fanyleb.

Cyswllt:
Mrs
Melanie
Rees

Pa haen arholiad byddaf yn sefyll?

Mae'r asesu ar gyfer TGAU Astudiaethau Busnes yn ddi-haen, h.y mae pob cydran yn darparu ar gyfer yr ystod lawn o allu ac yn caniatáu cyrraedd graddau A* - G

A fyddaf yn cael fy setio yn y pwnc?

Nid ydy'r Adran Fusnes yn setio a byddi'n cael dy addysgu mewn dosbarth gallu cymysg.



A oes gwaith cwrs neu dasgau o dan reolaeth yn y pwnc?

Nid oes gwaith cwrs na tasgau o dan reolaeth yn y fanyleb newydd yn 2017.



O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Os wyt am fwy o wybodaeth gallu di drafod gyda'r Pennaeth Adran neu ymweld gyda'r dudalen wê ganlynol:

www.cbac.co.uk

Bagloriaeth Cymru



Pam astudio'r pwnc?

Mae'n rhaid i bawb ddilyn Y Fagloriaeth Gymraeg.
Mae'n orfodol.

Beth yw cynnwys y cwrs?

Mae Bagloriaeth Cymru yn seiliedig ar Dystysgrif Her Sgiliau ynghyd â Chymwysterau Ategol. Rhaid bodloni gofynion y Dystysgrif Her Sgiliau a'r Cymwysterau Ategol er mwyn cyflawni Bagloriaeth Cymru yn ei chyfanrwydd.

Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cynnwys pedair cydran a gaiff eu dilyn gan bob dysgwr:

- Project Unigol - gwaith ymchwil estynedig unigol
- Her Menter a Chyflogadwyedd - creu busnes neu nwydd.
- Her Dinasyddiaeth Fyd-eang - dysgu am faterion byd eang.
- Her y Gymuned - prosiect cymunedol.

A oes arholiad yn y pwnc?

Nac oes.

A fyddaf yn cael fy setio yn y pwnc?

Na.

A oes gwaith cwrs neu dasgau o dan reolaeth yn y pwnc?

Mae gofyn i ti weithio mewn grwpiau ac ar ben dy hunain dros gyfnod o ddwy flynedd i gwblhau'r heriau. Bydd y mwyafrif o'r gwaith yn cael ei gwblhau yn yr ystafell ddosbarth. Bydd yr athrawon yn dysgu'r sgiliau i ti er mwyn dy alluogi i gwblhau'r heriau.



Cyswllt:
Mr Euryn
Madoc-
Jones

Pa haen arholiad byddaf yn sefyll?

Bydd canlyniadau cyfunol y bedair her yn penderfynu p'un a gaiff y Dystysgrif Her Sgiliau ei ddyfarnu ar lefel Genedlaethol neu Sylfaen

O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

http://www.cbac.co.uk/qualifications/welsh-baccalaureate/welsh-bacc-from-2015/?language_id=2



Bwyd a Maeth

Pam astudio'r pwnc?

Mae'r pwnc yma yn rhoi cyfle i ti ymestyn dy sgiliau ymarferol a gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion gwyddor bwyd, maeth a bwyta'n iach. Mae cynnwys y pwnc yn addas i ti os wyt am gael gwybodaeth eang o fwyd a maeth ac yn sylfaen ar gyfer astudio pynciau Lefel A tebyg i Lefel 3 Gwyddor Bwyd a Maeth. Os nad wyt am symud ymlaen i addysg bellach mae cynnwys y cwrs o ddefnydd i fywyd bob dydd. Mae hefyd yn baratoad gwerthfawr i ti os wyt am fynd i mewn i fydd gwaith o fewn y sector arlwyyo.

Beth yw cynnwys y cwrs?

Mae'r cwrs yn rhoi'r wybodaeth, y dealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ti i goginio. Felly mae'n bwnc ymarferol ac ar gyfartaledd bydd disgwyl i ti goginio unwaith yr wythnos. Mae'r cwrs yn gofyn i ti ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:

- Nwyddau bwyd
- Diet ac iechyd da
- Ble daw y bwyd

Egwyddorion maeth
Gwyddor bwyd
Coginio a pharatoi bwyd

A oes gwaith cwrs neu dasgau o dan reolaeth yn y pwnc?

Bydd yn rhaid i ti gwblhau 2 asesiad o dan reolaeth yn yr ysgol. Un ym mlwyddyn 10 ac un ym mlwyddyn 11. Asesiad 1 : Tasg wyddonol sy'n cynnwys ysgrifennu adroddiad ar arbrawf ymarferol e.e. defnydd o godyddion wrth wneud cacen. Mae'r dasg yma werth 20% o'r marc terfynol.

Asesiad 2 : Tasg ymarferol sy'n cynnwys creu 3 saig i ateb rhyw ofynion penodol e.e. addas ar gyfer Wythnos Rhyngwladol. Mae'r dasg yma werth 40% o'r marc terfynol.

Cyswllt:
Mrs
Non
Knott

Pa haen arholiad byddaf yn sefyll?

Dim ond un haen sydd i'r papur arholiad. Bydd yr holl gwestiynau ar y papur yn orfodol ac wedi targedu at yr holl raddau TGAU A*-G.

A fyddaf yn cael fy setio yn y pwnc?

Bydd pob disgybl yn astudio'r un cynnwys pwnc ac yn eistedd yr un papur arholiad. Felly nid oes setio yn y pwnc.



A oes arholiad yn y pwnc?

Ar ddiwedd y cwrs bydd un arholiad, 1½ awr o hyd. Bydd y papur yn asesu dy wybodaeth o'r holl feysydd astudio a enwir uchod sy'n gysylltiedig â bwyd a maeth.

O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Os wyt am fwy o wybodaeth gallu di drafod gydag athrawes Arlwyyo Mrs Non Knott neu ymweld ar dudalen TGAU Bwyd a Maeth - www.cbac.co.uk



Celf a Dylunio

Pam astudio'r pwnc?

Os ydych chi'n berson creadigol, ac yn mwynhau siarad am gelf ac edrych ar gelf, yna efallai bod Celf yw bwnn da i chi. Mae'r marciau ar gyfer y cwrs wedi eu rhannu, gyda 60% yn dod o'r gwaith cwrs a 40% yn dod o'r arholiad. Mae'n opsiwn dda felly os nad ydych yn gweithio'n dda iawn o dan amodau arholiad cyffredinol. Mae'r gwaith cwrs yn golygu gwneud portffolio o waith yn seiliedig ar thema neu dasg sydd o ddiddordeb i'r unigolyn.

Mae Celf yn hwyl, ond mae hefyd yn golygu llawer o waith caled, ac mae'r rhan fwyaf o bobl yn teimlo bod eu gwaith cwrs celf angen mwy o ymdrech nag yr oedden nhw'n ei ddisgwyl.

Fe fydd angen i chi weithio'n gyson ar eich gwaith cwrs, trwy gydol y flwyddyn, ac os ydych chi'n dueddol o adael pethau i'r funud olaf, yna fe allwch chi fod mewn trwbl.

A fyddaf yn cael fy setio yn y pwnc?

Mae'r holl ddosbarthiadau celf yn rhai gallu cymysg trwy gydol y cwrs TGAU.



Beth yw cynnwys y cwrs?

Mae'r portffolio gwaith cwrs yn cynnwys amrywiaeth eang o feysydd astudio e.e gallwch astudio Celf a Dylunio yn gyffredinol neu efallai eich bod am arbennigo yn un o'r canlynol: Graffeg, Tecstilau a Ffasiwn, Ffilm a Ffotograffiaeth, Dylunio 3D neu Celf Gain. Eich athro fydd yn gosod y themau ac fel arfer mae'r thema yn un sydd yn eich galluogi i feddwl ac ymateb yn greadigol e.e Llinell a Ffur, Perthynas, Gwrthdaro, Newid, Dinistr. Fe fydd hyn yn golygu gwneud darnau gorffenedig o waith a hefyd gwaith, ymchwil ac erthyglau ar arlunwyr.


A oes arholiad yn y pwnc?

Ar gyfer yr arholiad: fe fyddwch chi'n cael gwybod beth yw'r testunau yr ydych chi'n gallu eu dewis 6 wythnos cyn yr arholiad, ac fe fydd hyn yn rhoi amser i chi baratoi. Yna, fe fyddwch yn gorfod gwneud y gwaith dan amodau arholiad, sef 10 awr. (2 ddiwrnod ysgol) Caiff yr holl waith arholiad ei farcio a'i hasesu'n fewnol gan yr adran a'i safoni'n allanol gan CBAC.

A oes gwaith cwrs neu dasgau o dan reolaeth yn y pwnc?

Mae'r gwaith cwrs gwerth 60% o'r marc terfynol ac felly yn hanfodol eich bod yn gweithio'n gyson yn ystod y ddwy flynedd. Caiff yr holl waith cwrs ei farcio a'i asesu'n fewnol gan yr adran a'i safoni'n allanol gan CBAC.

Cyswllt:
Mrs
Kathryn
Richards



Pa haen arholiad byddaf yn sefyll?

Mae pawb yn sefyll yr un haen yn y pwnc hyn.

O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Gallwch edrych ar wefan yr adran am enghreifftiau gweledol o waith cwrs ac arholiad sydd wedi eu graddio.

Cerddoriaeth

Pam astudio'r pwnc?

Mae Cerdd yn bwnc dewisol yng Nghyfnod Allweddol 4, ac yn addas i ddisgyblion sydd â diddordeb mewn naill ai canu neu chwarae offeryn, ac sy'n mwynhau gwrando ar amrywiaeth eang o gerddoriaeth a chyfansoddi, ac sydd efallai'n mwynhau cyfuniad o'r uchod.

Beth yw cynnwys y cwrs?

Wrth astudio'r cwrs hwn byddi di'n cael y cyfle i ddatblygu dy sgiliau perfformio, cyfansoddi a gwerthuso. Byddi yn paratoi pefformiad ensemble ac efallai perfformiad unigol. Mae'r elfen berfformio werth 35% o'r marc terfynol. Bydd cyfle i ddatblygu dy sgiliau cyfansoddi ar gyfer y ffolio gwaith cwrs, ac fe fyddi yn gwrando ar amrywiaeth eang o gerddoriaeth i'th baratoi ar gyfer yr arholiad gwerthuso.

A oes gwaith cwrs neu dasgau o dan reolaeth yn y pwnc?

Bydd yn rhaid i ti gwblhau dau gyfansoddiad yn gysylltiedig â'r meysydd astudio. Bydd hefyd angen gwerthusiad ysgrifenedig, a log o'r broses gyfansoddi.

Mae'r tasgau hyn werth 35% o farciau terfynol y cwrs. Byddi di yn cael defnyddio'r rhaglen gyfrifiadurol 'Sibelius' i'th helpu gyfansoddi, cofnodi ac arbed dy waith wrth weithio.

Cyswllt:
Mrs
Meinir
Richards

Pa haen arholiad byddaf yn sefyli?

Un papur arholiad cyffredin sydd i bob disgybl.

A fyddaf yn cael fy setio yn y pwnc?

Nid yw'r Adran Gerdd yn setio'r disgyblion, ond yn hytrach byddwch yn cael eich addysgu fel grŵp gallu cymysg. Bydd pob disgybl yn astudio'r un cwrs, ond bydd dewis gennyt yn yr elfen berfformio a'r tasgau cyfansoddi. Un papur arholiad sydd ar gyfer pawb.



A oes arholiad yn y pwnc?

Ar ddiwedd y cwrs bydd un arholiad gwerthuso (gwrando) tua 1 awr. Bydd yr arholiad hwn werth 30% o holl farciau'r cwrs.



O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Os wyt am fwy o wybodaeth gallu di drafod gyda dy athrawes Gerddoriaeth, y Pennaeth Adran neu ymweld gyda'r dudalen wê ganlynol: www.cbac.co.uk

Cymraeg

Pam astudio'r pwnc?

Dyma gyfle i ti ennill dau gymhwyster ar ddiwedd y daith, sef Cymraeg a Llenyddiaeth Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn bwnc gorfodol, ac yn sicr byddai ennill gradd C neu uwch yn y pwnc yn fanteisiol iawn i ti wrth ddewis cyrsiau addysg uwch ac addysg bellach yn ogystal â gyrfa.

A fyddaf yn cael fy setio yn y pwnc?

Mae'r disgyblion yn cael eu rhannu i ddau fand addas o fewn y grwpiau dysgu.

Beth yw cynnwys y cwrs?

Bydd astudio'r Gymraeg yn rhoi'r cyfle i ti ddatblygu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu. Mae'r cwrs iaith yn canolbwyntio ar ymateb i ddarllen, ysgrifennu'n greadigol a'n ffeithiol yn ogystal â thargedu cywirdeb iaith. Mae'r cwrs Llenyddiaeth yn cynnwys astudiaeth o nofel gyfoes, casgliad o gerddi a ffilm.



A oes gwaith cwrs neu dasgau o dan reolaeth yn y pwnc?

Does dim gwaith cwrs yn rhan o'r cwrs Cymraeg iaith. Fe fyddi di'n cael dy baratoi a'th arwain yn ofalus gan dy athro i gyflawni 2 ddarn o waith cwrs Llenyddiaeth yn ystod y ddwy flynedd. Mae'r ffolio Llên, sy'n gyfwerth â 25% o'r marciau, yn cynnwys ymateb i storïau byrion yn ogystal ag ymateb yn greadigol i ddrama.

A oes arholiad yn y pwnc?

Ar ddiwedd y cwrs Cymraeg iaith bydd gennyt ddau arholiad Darllen ac Ysgrifennu, sef *Disgrifio*, *Naratif ac Esbonio* a *Trafod*, *Perswâd* a *Chyfarwyddiadol*. Mae'r ddau arholiad gyfwerth â 35% yr un. Hefyd cei dy arholi ar lafar wrth fynegi barn mewn grŵp a chyflwyno gwybodaeth yn unigol sy'n 30% o'r marc. Mae dau arholiad ysgrifenedig yn rhan o'r cwrs Llenyddiaeth, a rheiny yn seiliedig ar farddoniaeth a nofel, gwerth 25% yr un. Bydd cyfle hefyd i drafod ffilm arbennig mewn grŵp o dri yn ystod arholiad llafar sy'n 25%.

Pa haen arholiad byddaf yn sefyll?

Mae'r cwrs TGAU Cymraeg iaith yn ddi-haen. Penderfynir ar haen y papur arholiad Llenyddiaeth ar ddiwedd blwyddyn 9 a thymor cyntaf blwyddyn 10.



Cyswllt:
Mrs
Helen
Evans

O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Croeso i ti drafod gyda dy athrawes Gymraeg neu'r Pennaeth Adran er mwyn casglu mwy o wybodaeth. Mae'r wefan www.cbac.co.uk hefyd yn ddefnyddiol.



Daearyddiaeth

Pam astudio'r pwnc?

Mae Daearyddiaeth yn ddiddorol ac yn berthnasol i'ch bywydau chi - mae'n astudiaeth o'r byd o'n cwmpas, yng Nghymru, Ewrop ac yn Fyd-eang. Byddwch astudio materion amgylcheddol a chymdeithasol mewn mannau amrywiol. Byddwch yn astudio amrywiaeth o themâu, fel y gwelir isod yng nghynnwys y cwrs. Rhoddir cryn bwyslais ar feithrin a datblygu eich sgiliau allweddol gyda chyfleoedd niferus i chi ddatblygu eich medrau, datrys problemau a gweithio'n annibynnol lle bo'n addas. Byddwch yn datblygu dealltwriaeth aeddfed o faterion cyfoes gan anelu at eich gwneud yn ddinasyddion cyfrifol, sy'n gwerthfawrogi'r angen i fod yn gynaliadwy yn yr oes hon wrth uniaethu mewn modd pwrpasol â safbwyntiau grwpiau gwahanol o bobl.

A fyddaf yn cael fy setio yn y pwnc?

Byddwch yn cael eich addysgu mewn grwpiau gallu cymysg.



Beth yw cynnwys y cwrs?

Wrth ddilyn y cwrs hwn byddi di'n cael y cyfle i astudio amrywiaeth o themâu dynol a ffisegol. Yr unedau yw:

- ❖ Uned 1: Tirweddau Ffisegol a Dynol Newidiol
 - ❖ Uned 2: Materion Amgylcheddol a Datblygu
 - ❖ Uned 3: Ymholiadau Gwaith Maes
- Byddi di'n datblygu dy ddealltwriaeth o'r themâu hyn trwy ymchwilio i wahanol cwestiynau allweddol.

A oes gwaith cwrs neu dasgau o dan reolaeth yn y pwnc?

Bydd yn rhaid i ti gwblhau 1 asesiad di-arholiad yn yr ysgol ac mae'r tasg hyn werth 20% o farc terfynol y cwrs. Byddi di yn cael taflenni cyfarwyddiadau ymlaen llaw am ofynion y dasg a bydd dy athro/athrawes yn dy baratoi ar gyfer yr asesiadau. Bydd yr asesiad yn ymholiad yn seiliedig ar deithiau gwaith maes.



A oes arholiad yn y pwnc?

Ar ddiwedd Blwyddyn 11 bydd arholiad 1 ½ awr ar Uned 1 sydd gwerth 40% o'ch marc terfynol, ac arholiad 1 ½ awr ar Uned 2 sydd hefyd gwerth 40% o'ch marc terfynol.



Cyswllt:
Mr
Alun
Thomas

Pa haen arholiad byddaf yn sefyll?

Yn Naearyddiaeth dim ond un haen arholiad sy'n bodoli.

O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Os wyt am fwy o wybodaeth gallu di drafod gyda dy athro/athrawes Daearyddiaeth, y Pennaeth Adran neu ymweld gyda'r dudalen we ganlynol: <http://www.cbac.co.uk>

Dylunio a Thechnoleg: Dylunio Cynnyrch

Pam astudio'r pwnc?

Mae'r cymhwyster hwn mewn Dylunio a Thechnoleg yn cynnig cyfle unigryw yn y cwricwlwm i ddysgwyr adnabod a datrys problemau go iawn trwy ddylunio a gwneud cynhyrchion neu systemau. Bydd y dysgwyr yn barod i gymryd rhan yn hyderus a llwyddiannus mewn byd sy'n fwyfwy technolegol wrth datblygu amrywiaeth o sgiliau cyfathrebu, gan gynnwys sgiliau llafar, graffigol, TGCh a modelu. Mae'r cwrs yn addas iawn ar gyfer disgyblion sydd â diddordeb mewn gyrfa mewn Celf a Dylunio, Gwyddoniaeth, neu Peirianeg.

Beth yw cynnwys y cwrs?

Mae'r cwrs yn datblygu ystod a dyfnder priodol o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn dylunio a thechnoleg. Byddwch yn cynllunio a gwneud cynhyrchion arloesol sydd yn adlewyrchu datblygiadau mewn cymdeithas. Mae'r cwrs wedi ei selio ar weithgareddau ymarferol sydd yn cynnwys dadosod cynnyrch, dylunio, gwerthuso a chynhyrchu. Cewch gyfle i ddatblygu dealltwriaeth o ddefnyddiau a chydannau. Byddwch yn dysgu sut i ddefnyddio amrywiaeth o offer llaw, peiriannau a meddalwedd gan gynnwys offer cynllunio a chynhyrchu drwy gymorth cyfrifiadur. Byddwch yn defnyddio systemau TGCh ar gyfer ymchwilio a datrys problemau. Bydd rhaid i chi ddefnyddio systemau TGCh i brosesu testun, dadansoddi data, cynhyrchu delweddau / modelau 2D a 3D, a thrin delewddau digidol.

A oes arholiad yn y pwnc?

Byddwch yn eistedd un papur ysgrifenedig werth 50% o holl farciau'r cwrs.. Bydd y papur arholiad yn rhoi cyfle i chi ddangos dealltwriaeth o'r canlynol:

- Datblygu, cynllunio a chyfathrebu syniadau
- Dadansoddi cynnyrch
- Cynladwyedd a materion deddfwriaethol
- Dylunwyr eraill / cyfreithwyr
- Arferion diwydiannol a Masnachol
- Defnyddiau a Chydannau
- Offer a Chyfarpar
- TGCh CAD/CAM
- Systemau a Phrosesau

Cyswllt:
Mr
Robyn
Davies

Pa haen arholiad byddaf yn sefylli?

Dim ond un haen sydd i'r papur arholiad. Mae'r cwestiynau wedi eu graddio fel bod pob gradd (A*-F) ar gael i ymgeiswyr.

A fyddaf yn cael fy setio yn y pwnc?

Mae'r dosbarthiadau yn rhai gallu cymysg.



A oes gwaith cwrs neu dasgau o dan reolaeth yn y pwnc?

Bydd angen cwblhau tasg ddylunio a chynhyrchu dan reolaeth yn yr ysgol. Mae'r dasg hon werth 50% o farciau terfynol y cwrs. Cewch wybodaeth fanwl am ofynion pob tasg. Byddwch â'r hawl i baratoi gwybodaeth ar gyfer y dasg o flaen llaw a'i ddefnyddio yn yr asesiad. Mae disgwyl i ddysgwyr gwblhau tasg 'dylunio a chynhyrchu' ddwys a manwl, yn seiliedig ar yr her maent wedi ei dewis. Wrth gwblhau'r dasg dylunio a gwneud, bydd disgwyl i'r dysgwr gynhyrchu'r canlynol

- briff dylunio a ddatblygwyd mewn ymateb i un o'r heriau cyd-destunol a osodwyd gan CBAC
- prototeip (neu brototeipiau) terfynol yn seiliedig ar y briff dylunio hwnnw.
- tystiolaeth ychwanegol yn ôl y gofyn, gan gynnwys ffolio dylunio i alluogi'r dysgwr gael ei asesu.



O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Os ydych am fwy o wybodaeth gallwch drafod yr opsiwn gyda'ch athro Technoleg, y Pennaeth Adran, neu ymweld gyda'r dudalen we ganlynol: www.cbac.co.uk

Dylunio a Thechnoleg: Gwaith Saer

Pam astudio'r pwnc?

Os ydych â diddordeb mewn datblygu sgiliau ymarferol gwaith coed dyma'r cwrs i chi. Cewch gyfle i ddysgu sut i ddefnyddio offer a pheiriannau i gynhyrchu amrywiaeth o uniadau gwaith coed. Byddwch yn datblygu dealltwriaeth o waith saer coed Gallwch ddefnyddio'r cymhwyster fel tystiolaeth o waith ymarferol fel rhan o gais i brifysgol neu fel llwybr i addysg uwch a phrentisiaeth fodern.

Beth yw cynnwys y cwrs?

Mae'r cwrs yn gyfle i chi ddysgu technegau gwaith coed trwy gwblhau tasgau ymarferol. Mae'r hyfforddiant yn ymdrin â'r defnydd o offer llaw ac amrediad o beiriannau.

Byddwch yn datblygu sgiliau sydd yn berthnasol i'r byd gwaith:

- ❖ Oblygiadau lechyd a Diogelwch defnyddio coed ac offer torri.
- ❖ Yr angen i gadw gwaith yn lan.
- ❖ Pwysigrwydd cywirdeb wrth farcio a thorri defnyddiau.
- ❖ Egwyddorion cynnal offer mainc mewn cyflwr da.

Cynnwys y cwrs:

Blwyddyn 10

Cewch y cyfle i ddysgu sut i gynhyrchu'r uniadau canlynol:

- Mortais a thyno
- Mortais a thyno pwt (dwbl)
- Uniad bagl
- Uniad cynffonog hanerog
- Mortais a thyno ysgwydd hir a byr
- Uniad bisged
- Uniad crib – Byddwch yn cynhyrchu bocs gan ddefnyddio'r uniad yma

Blwyddyn 11

- Ffrâm yn defnyddio uniadau mortais a thyno i dderbyn panel MDF
- Ongl sgwar yn cynnwys uniad cynffon.

Cyswllt:
Mr
Steffan
Davies

O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Os ydych am fwy o wybodaeth gallwch drafod yr opsiwn gyda'ch athro Gwaith coed neu'r Pennaeth Adran.

A fyddaf yn cael fy setio yn y pwnc?

Mae'r dosbarthiadau yn rhai gallu cymysg.



A oes gwaith cwrs neu dasgau o dan reolaeth yn y pwnc?

Byddwch yn cael eich asesu trwy asiad parhaol mewnol.

City & Guilds

A oes arholiad yn y pwnc?

Byddwch yn cael eich asesu ar sgiliau ymarferol. Os gyrhaeddwch y safon ddisgwyliedig, byddwch yn cael eich cofrestru ar gyfer cymhwyster City and Guilds Lefel 1 Gwaith Coed.

BTEC Lefel 2

Peirianeg

Pam astudio'r pwnc?

Mae'r cymhwyster hwn mewn Peirianeg yn cynnig cyfle yn y cwricwlwm i fyfyrwyr ddysgu sgiliau peirianeg go iawn drwy gwblhau nifer o dasgiau heriol yn defnyddio metalaau wrth wneud cynhyrchion. Bydd yn paratoi dysgwyr i gymryd rhan mewn gwaith peirianeg neu dechnolegol ac i fod yn hyderus wrth ddefnyddio offer y gweithdy mewn ffordd ddiogel a llwyddiannus.. Mae'r cwrs yn addas iawn ar gyfer disgyblion sydd â diddordeb mewn gyrfya mewn Dylunio, Gwyddoniaeth, neu Beirianeg.

Beth yw cynnwys y cwrs?

Mae'r cwrs yn datblygu ystod a dyfnder priodol o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau mewn peirianeg. Byddwch yn astudio iechyd a diogelwch a sut i weithio yn ddiogel mewn amgylchedd diwydianol. Mae'r cwrs wedi ei selio ar weithgareddau ymarferol sydd yn cynnwys adeiladu nifer o gynhyrchion yn defnyddio sgiliau peirianeg gwahanol. Bydd angen i'r disgyblion ddysgu sut i weithio i fanylder cywir iawn a defnyddio offer mesur i werthuso eu gwaith. Byddwch yn dysgu sut i ddefnyddio amrywiaeth o offer llaw a pheiriannau. Bydd angen i'r myfyrwyr ddangos y gallu i ddarllen dyluniadau technolegol a deall gwybodaeth o ffynhonnellau gwahanol. Byddwch yn cadw porffolio o waith i ddangos a recordio eich canlyniadau.



A oes arholiad yn y pwnc?

Nid oes arholiad yn y pwnc. Mae'r gwaith yn cael ei asesu yn fewnol a sampl o'r gwaith yn cael ei asesu yn allanol.



**Cyswllt:
Mr
Robyn
Davies**



A fyddaf yn cael fy setio yn y pwnc?

Mae'r dosbarthiadau yn rhai gallu cymysg.



A oes gwaith cwrs neu dasgau o dan reolaeth yn y pwnc?

Mae'r gwaith cwrs yn cynnwys nifer o dasgau cynhyrchu. Byddant yn cynyddu mewn cymhlethdod wrth i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau. Mae angen iddynt ddefnyddio sgiliau wrth fesur a marcio'n gywir. Defnyddiwn offer gwahanol i dorri a siâpio metel. Bydd angen paratoi gwybodaeth cyn y dasg er mwyn ei ddefnyddio yn yr asesiadau. Bydd angen i ddysgwyr hunanasesu ei waith ymarferol yn erbyn mesuriadau penodol. Caiff y rhain eu hasesu'n fewnol gan yr athro ac yn allanol gan y bwrdd arholi. Yn ogystal, mae myfyrwyr yn astudio gwahanol elfennau o Beirianeg yn y gweithle, gan gynnwys iechyd a diogelwch, offer a phrosesau. Bydd cwestiynau ysgrifenedig yn asesu eu gwybodaeth o'r elfennau hyn. Caiff pob darn o waith ei gwblhau yn y gweithdy.

O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Os ydych am fwy o wybodaeth gallwch drafod yr opsiwn gyda'ch athro Peirianeg, y Pennaeth Adran, neu ymweld gyda'r dudalen we ganlynol: <http://eal.org.uk/>

Drama

Pam astudio'r pwnc?

Gellir dewis y pwnc fel opsiwn TGAU ym Mlwyddyn 10 a hefyd fel opsiwn UG/U Drama ac Astudiaethau Theatr ym Mlwyddyn 12 a 13. Wrth astudio Drama caiff pob unigolyn y cyfle i ddatblygu sgiliau dramatig wrth greu, perfformio a gwerthuso. Mae'n ffordd werthfawr hefyd i ddatblygu hunanhyder a sgiliau ieithyddol. Rydyn ni'n credu mewn dysgu trwy fwynhad ac fe gei di gynnig gwledd o weithgareddau allgyrsiol. Cei gyfle i berfformio mewn sioeau cerdd, drama, nosweithiau adloniannol ac i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Trefnir gweithdai ac ymweliadau i'r theatr a derbynnir ymweliadau oddi wrth gwmnïau teithiol, actorion ac arbenigwyr eraill yn y maes. **Dere i ymuno yn yr hwyl.**



Beth yw cynnwys y cwrs?

UNED UN: Theatr wedi ei ddyfeisio (40%)
Byddi di'n creu a pherfformio darn o theatr yn seiliedig ar genre neu Ymarferwr Theatr. Byddi di'n ysgrifennu gwerthusiad ar y perfformiad hwn.

UNED 2 – Perfformio Theatr –(20%)
Asesiad actio ar sgript cyhoeddedig.

UNED 3 – Dehongli Theatr –(40%)
Y ddrama osod fydd "Dau Wyneb" gan Manon Steffan Ros. Bydd arholiad ysgrifenedig yn gofyn am ddehongliad cyfarwyddol, actor a dyluniad llwyfan.

Byddi di hefyd yn ysgrifennu adolygiad Theatr Byw.

Cyswilt:
Mrs
Lowri
Davies

A fyddaf yn cael fy setio yn y pwnc?

Gallu cymysg fydd aelodau'r dosbarth. Bydd dau ddosbarth (yn ddibynnol ar niferoedd) yn astudio'r un cynnwys ond yn cael eu dysgu gan Mrs Lowri Rhys Davies.



A oes arholiad yn y pwnc?

Byddi di'n cael dwy arholiad ymarferol a asesir ym mlwyddyn 11, un yn fewnol a'r llall gan Arholwr cydnabyddedig o'r bwrdd Arholi. Bydd arholiad ysgrifenedig yn seiliedig ar ddrama osod ar ddiwedd Blwyddyn 11.



O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Croesi i ti siarad gyda dy athrawes Ddrama a gweld darnau o waith cwrs ysgrifenedig, gelli ymweld â gwefan yr ysgol i weld datblygiadau diweddaraf yr Adran Ddrama neu ymweld â gwefan swyddogol y bwrdd arholi www.cbac.co.uk

Ffrangeg

Pam astudio'r pwnc?

Mae TGAU Ffrangeg yn ddewis doeth am nifer fawr o resymau:

- Mae'n sgil werthfawr.
- Mae'n ateb gofynion nifer fawr o gyflogwyr.
- Mae'n galluogi disgyblion i astudio iaith dramor fel rhan o'u gradd.
- Mae'n cynnig lluo o brofiadau newydd.
- Mae'n gyfle amhrisiadwy i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau pobl a gwledydd eraill.

A wyddoch chi?

- Mae gwledydd eraill Ewrop yn dilyn polisi 1+2, sef astudio eu hiaith gyntaf ac yna ddwy iaith arall.
- Mae rhai prifysgolion yn dweud bod rhaid cael TGAU iaith dramor er mwyn astudio rhai cyrsiau yno.
- Mae'n rhaid astudio iaith dramor yn yr ysgol gynradd yn Lloegr.
- Mae TGAU iaith dramor yn rhan o'r BAC

Beth yw cynnwys y cwrs?

Yn ystod y cwrs rydym yn astudio nifer o themâu, rhai cyfarwydd i'r disgyblion ac rhai anghyfarwydd. Themâu megis; adloniant a hamdden, iechyd a ffitrwydd, bwyd a diod, gwyliau a dathliadau, amgylchedd, profiad gwaith, hunan a pherthnasedd, technoleg a chyfryngau cymdeithasol, materion cymdeithasol, bywyd ysgol a themâu diwylliannol am y gwledydd lle siaradir Ffrangeg.



Beth yw asesiadau'r cwrs?

Mae pedair rhan i'r asesiadau.

Uned 1: Siarad - 25% Bydd un prawf llafar: chwarae rôl; trafodaeth am lun ar gerdyn; sgwrs. Bydd y prawf yn para am 10-12 munud i'r haen uwch a 7-9 munud i'r haen sylfaenol. Gyda'r athro pwnc bydd y disgyblion yn cyflawni'r prawf hwn.

Uned 2: Gwranddo - 25% Arholiad terfynol haf blwyddyn 11. Mae dwy haen: sylfaenol ac uwch.

Uned 3: Darllen - 25% Arholiad terfynol haf blwyddyn 11 - Mae dwy haen: sylfaenol ac uwch.

Uned 4: Ysgrifennu - 25% Arholiad terfynol haf blwyddyn 11 - Mae dwy haen: sylfaenol ac uwch.

Cyswllt:
Mr
Gwyn
Jones



O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Os wyt am fwy o wybodaeth gallu di drafod gyda dy athro Ffrangeg, y Pennaeth Adran neu ymweld gyda'r dudalen we ganlynol:

www.cbac.co.uk

**Bioleg
Cemeg
Ffiseg**

Gwyddoniaeth

Pam astudio'r pwnc?

Mae Gwyddoniaeth yn orfodol i bawb ym mlwyddyn 10 ac 11. Mae'r cwrs wedi ei gynllunio er mwyn dy fod yn datblygu gwerthfawrogiad o'r byd o dy amgylch a hefyd y gwaith mae gwyddonwyr yn ei wneud. O fewn Bioleg, Cemeg a Ffiseg, byddi di'n astudio'r ffordd mae Gwyddoniaeth yn effeithio ar dy fywyd fel unigolyn a hefyd sut mae'n effeithio ar y gymdeithas i gyd.

Cei gyfle i wneud mesuriadau gwyddonol wrth wneud ymchwiliadau ac felly byddi di yn datblygu dy allu i werthuso gwybodaeth wyddonol. Byddi hefyd yn datblygu dy sgiliau ieithyddol a mathemategol.

Beth yw cynnwys y cwrs?

Bydd pob disgybl TGAU yn astudio unedau ym Mioleg, Cemeg a Ffiseg ym mlwyddyn 10 a gewn eu hasesu trwy arholiadau allanol ar ddiwedd blwyddyn 10.

Yna byddant yn astudio ail uned o Bioleg, Cemeg a Ffiseg ym mlwyddyn 11 sy'n arwain at ail TGAU.

A fyddaf yn cael fy setio yn y pwnc?

Bydd yr Adran yn setio. Bydd y disgyblion i gyd yn ddilyn y cwrs Gwyddoniaeth CBAC (Dwyradd).



A oes arholiad yn y pwnc?

Fel rhan o'r cwrs Gwyddoniaeth fydd angen sefyll 3 arholiad ym mlwyddyn 10 ac yna 3 ychwanegol ym mlwyddyn 11. Mae pob un arholiad yn 75 munud ac yn werth 90% o'r radd derfynol.

A oes gwaith cwrs neu dasgau dan reolaeth yn y pwnc?

Yn y cwrs Gwyddoniath bydd rhaid cwblhau tasg o dan reolaeth ym mlwyddyn 11. Mae'r tasg gwerth 10% o'r radd derfynol.

O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Cei fwy o wybodaeth oddi wrth dy athrawon yn y gwersi Gwyddoniaeth ac y mae croeso i ti siarad gydag unrhyw athro yn yr adran os am gael rhagor o fanylion.



Cyswllt:
Mr Gari
Thomas

Pa haen arholiad byddaf yn sefyll?

Bydd hwn yn cael ei benderfynu gyda chyngor yr adrannau ac ar ôl i ti ymarfer cwestiynau o'r math a geir yn yr haenau gwahanol



Gwyddoniaeth Triphlyg

Pam astudio'r pwnc?

Wrth ddilyn cwrs Gwyddoniaeth Triphlyg mae 'na gyfle i ti gael dy ysbrydoli a dy herio drwy ddilyn cwrs astudio eang, ymarferol a gwerthfawr. Fe gei di'r profiad o weld sut mae gwyddoniaeth yn gweithio, a dy annog i ymgysylltu gwyddoniaeth yn dy fywyd a gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch astudiaethau pellach a dewisiadau gyrfa.

Bydd y testun yn cael ei ddysgu trwy'r Gymraeg yn unig.



Beth yw cynnwys y cwrs?

Bioleg 1: Y systemau resbiradaeth, treuliad a chylchrediad gwaed mewn bodau dynol. Planhigion a ffotosynthesis.

Bioleg 2: Cellraniad a chelloedd bonyn, DNA ac etifeddiad. Clefyd, amddiffyniad a thriniaeth.

Cemeg 1: Adeiledd atomig a'r Tabl Cyfnodol, adweithiau cemegol a'r Ddaear sy'n newid yn barhaus.

Cemeg 2: Bondio, adeiledd a phriodweddau. Metelau ac echdynnu metelau. Olew crai, a thanwyddau.

Ffiseg 1: Cylchedau, trydan domestig a phriodweddau tonnau.

Ffiseg 2: Deddfau Newton, sêr, planedau ac egni niwclear

A oes arholiad yn y pwnc?

Oes ar ddiwedd Blwyddyn 10 (Bioleg 1, Cemeg 1 a Ffiseg 1) a diwedd Blwyddyn 11 (Bioleg 2, Cemeg 2 a Ffiseg 2)

A oes gwaith cwrs neu dasgau o dan reolaeth yn y pwnc?

Mae yna asesiad dan reolaeth ymhob un o'r tri pwnc sydd werth 10% o bob pwnc. (i'w cwblhau ym Mlwyddyn 11)

Pa haen arholiad byddaf yn sefyll?

Mae 'na ddwy haen sef Uwch (A* - D) neu Sylfaenol (C - E)

O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Mr Gari Thomas (FFiseg)
Mr Tim Hayes (Bioleg)
Mrs Rhian Williams (Cemeg)
Neu unrhyw athro/athrawes arall yn yr adran wyddoniaeth.

Cyswllt:
Mr Gari
Thomas



Hanes

Pam astudio'r pwnc?

Mae Hanes yn bwnc diddorol iawn ac yn berthnasol ar gyfer deall beth sy'n digwydd yn y byd cyfoes. Bydd yr adran yn ceisio ysbrydoli disgyblion i ddatblygu sgiliau hanesyddol ac ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gorffennol.



Beth yw cynnwys y cwrs?

Wrth ddilyn y cwrs bydd modd i ti gael y cyfle i ddatblygu dy sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu. Rhoddir pwyslais mawr ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gyfnod hanes modern. Yn ystod y cwrs byddi di'n dysgu am hanes ymfudo i fewn ac allan o Gymru o 1500-2000, America o 1910-1929 a Prydain Fodern yn ogystal â hanes lleol Merched Beca.

A fyddaf yn cael fy setio yn y pwnc?

Nid ydy'r Adran Hanes yn setio yn y pwnc.

A oes gwaith cwrs neu dasgau o dan reolaeth yn y pwnc?

Bydd rhaid cwblhau 2 tasg o dan reolaeth yn yr ysgol ac mae'r tasgau hyn werth 25% o farciau terfynol y cwrs.

Bydd yr athro/athrawes sy'n dysgu ti yn rhoi'r gwybodaeth o flaen llaw am ofynion y tasgau a bydd y gwaith paratoi ar gyfer yr aseiniad yn cael ei wneud yn y dosbarth.



A oes arholiad yn y pwnc?

Bydd 2 arholiad o awr ar ddiwedd y cwrs ac 1 arholiad o awr ar ddiwedd blwyddyn 10. Bydd yr arholiadau hyn werth 75% o holl farciau'r cwrs.

O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Os wyt am fwy o wybodaeth gallu di siarad gyda dy athro/athrawes Hanes, y Pennaeth Adran sef Dr. Huw Griffiths neu ymweld a'r tudalen we ganlynol: www.cbac.co.uk

Cyswllt:
Dr
Huw
Griffiths

Pa haen arholiad byddaf yn sefyll?

Yn Hanes dim ond un haen arholiad sy'n bodoli.

Iechyd a Gofal

Cymdeithasol

Pam ddylem i astudio'r pwnc?

Mae'r cwrs yn un diddorol ac fe fyddi di'n cael dysgu am dy iechyd, dy hawliau a sut mae gwahanol sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio. Mae Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd yn bwnc sydd â sylfaen eang ac mae'n gallu agor drysau at lawer o yrfaoedd gwahanol yn y dyfodol.

Beth yw cynnwys y cwrs?

Byddi di yn astudio dwy uned o waith, sef:

- Twf, datblygiad a llesiant dynol.
- Hybu a chynnal iechyd a llesiant.

Rhoddir llawer o bwyslais ar waith annibynnol a'r gallu i weithio mewn modd strwythuredig er mwyn cwrdd dyddiadau cau ac ymdopi gyda'r lefel ddisgwyliedig o waith cwrs. Hefyd mae disgwyl i ti wneud gwaith ymchwil dwys trwy ddarllen a gwylio rhaglenni teledu am faterion cyfoes perthnasol.

A oes gwaith cwrs neu dasgau o dan reolaeth yn y pwnc?

Bydd yn rhaid i ti gynhyrchu dau bortffolio o waith fel tystiolaeth asesu ar gyfer un o'r unedau a bydd y rhain yn werth 60% o dy farc terfynol yn y pwnc.

Cyswllt:
Miss
Leony
Hall

Pa haen arholiad byddaf yn sefyll?

Bydd pob disgybl yn sefyll yr un haen yn yr arholiad gan nad oes dewis yn y pwnc.

A fyddaf yn cael fy setio yn y pwnc?

Byddi di yn cael dy ddysgu mewn grwp gallu cymysg.



A oes arholiad yn y pwnc?

Asesir un o'r unedau gwaith trwy arholiad allanol.

O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Gallu di wneud ymchwil ar wefan CBAC (www.healthandcarelearning.wales) neu siarad gyda Miss L Hall.

Mathemateg

Beth yw cynnwys y cwrs?

TGAU Mathemateg yw un o'r cymwysterau fydd ar gael o Fedi 2015.

Bydd TGAU Mathemateg yn adeiladu ar y lefelau mathemateg sy'n ddisgwyliedig ar ddiwedd CA3.

Bydd y disgyblion yn:

- gwneud cysylltiadau rhwng meysydd gwahanol o fathemateg
- dethol a defnyddio dulliau mathemategol mewn cyd-destunau mathemategol ac yn y byd go iawn
- rhesymu yn fathemategol, llunio dadleuon a phroffion syml, a gwneud didwythiadau rhesymegol a rhesymiau
- datblygu a mireinio strategaethau ar gyfer datrys amrediad o broblemau mathemategol ac yn y byd go iawn
- dehongli canlyniadau mathemategol gan ddod i gasgliadau sy'n berthnasol

Cyswllt:
Mrs Rhian
Carruthers

A oes arholiad yn y pwnc?

Uned 1: Heb gyfrifiannell

Arholiad Ysgrifenedig

Uned 2: Caniateir Cyfrifiannell

Arholiad Ysgrifenedig

Haen Uwch: 1 Awr 45 munud (80marc)


Haen Ganolradd: 1 Awr 45 munud (80marc)

Haen Sylfaenol: 1 Awr 30 munud (65marc)

50% o'r cymhwyster

Asesu

Bydd tair haen ar gyfer y cymhwyster yma:-
Haen Uwch: Graddau A* – C
Haen Ganolradd: Graddau B – E
Haen Sylfaenol: Graddau D – G



O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Os wyt am fwy o wybodaeth gallu di drafod gyda dy athrawes Mathemateg, y Pennaeth Adran neu ymweld gyda'r dudalen wê ganlynol: www.cbac.co.uk



Mathemateg: Rhifedd

Beth yw cynnwys y cwrs?

Bydd **TGAU Mathemateg - Rhifedd** yn adeiladu ar y lefelau rhifedd sy'n ddisgwyliedig ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 ac yn symud ymlaen ohonyn nhw trwy'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac yn asesu'r fathemateg y bydd ei hangen ar ddysgwyr yn eu bywydau bob dydd, ym myd gwaith, ac ym meysydd eraill y cwricwlwm. Bydd y fanyleb hon yn annog dysgwyr i gael eu hysbrydoli, eu symud a'u herio drwy ddilyn cwrs astudio eang, cydlynol, boddhaol a gwerthfawr. Bydd yn helpu dysgwyr i ddatblygu hyder mewn mathemateg ac agwedd gadarnhaol tuag at fathemateg ac i sylweddoli pa mor bwysig a pherthnasol yw mathemateg yn eu bywydau bob dydd ac i'r gymdeithas. Byddant yn cael eu paratoi i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch cyfleoedd dysgu pellach a dewisiadau gyrfa. Ceir cyfleoedd hefyd i ddysgwyr wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch defnyddio technoleg, rheoli arian a defnyddio ystadegau.



Asesu

Bydd tair haen ar gyfer y cymhwyster yma:-
Haen Uwch: Graddau A* – C
Haen Ganolradd: Graddau B – E
Haen Sylfaenol: Graddau D – G



O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Os wyt am fwy o wybodaeth gallu di drafod gyda dy athrawes Mathemateg, y Pennaeth Adran neu ymweld gyda'r dudalen wê ganlynol: www.cbac.co.uk

Cyswilt:
Mrs Rhian
Carruthers

A oes arholiad yn y pwnc?



Uned 1: Heb gyfrifiannell

Arholiad Ysgrifenedig

Uned 2: Caniateir Cyfrifiannell

Arholiad Ysgrifenedig

Haen Uwch: 1 Awr 45 munud (80marc)

Haen Ganolradd: 1 Awr 45 munud (80marc)

Haen Sylfaenol: 1 Awr 30 munud (65marc)

50% o'r cymhwyster

Saesneg (laith)

Pam astudio'r pwnc?

Mae hwn yn bwnc gorfodol a disgwylir i bob disgybl yn yr ysgol i ennill cymhwyster yn y pwnc. Gan amlaf mae cyflogwyr, sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yn disgwyl bod gan unigolion radd C neu uwch yn y pwnc.



Beth yw cynnwys y cwrs?

Wrth astudio'r cwrs hwn byddi di'n cael y cyfle i ddatblygu dy sgiliau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu. Byddi di yn dadansoddi sut mae'r iaith hon yn cael ei defnyddio ar lafar ac yn ysgrifenedig. Hefyd bydd disgwyl i ti ddangos dy allu i ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o bwrpasau gan fynegi dy hun yn gywir ac effeithiol. Fel yn y gorffennol bydd cyfleoedd i ti gymryd rhan mewn gweithgareddau siarad a gwrando, gan fynegi dy farn a thrafod syniadau yn y dosbarth.

A oes gwaith cwrs neu dasgau o dan reolaeth yn y pwnc?

Bydd yn rhaid i ti gwblhau 2 dasg llafar o dan reolaeth yn yr ysgol ac mae'r tasgau hyn werth 20% o farciau terfynol y cwrs. Byddi di yn cael gwybodaeth mlaen llaw am ofynion y tasgau a bydd dy athrawes yn dy baratoi ar gyfer yr asesiadau. Yn ogystal, ar gyfer y mwyafrif o dasgau bydd yr hawl gyda thi i gynllunio dy syniadau a defnyddio'r cynllun yn ystod y sesiwn asesu.

Cyswllt:
Mrs
Llinos M
Jones

Pa haen arholiad byddaf yn sefyll?

Mae'r cwrs TGAU Saesneg laith yn ddi-haen.

A oes arholiad yn y pwnc?

Ar ddiwedd y cwrs bydd 2 arholiad o 2 awr yr un. Bydd yr arholiadau hyn werth 80% o holl farciau'r cwrs. Yn y papur cyntaf asesir dy allu di i ddarllen testunau ffuglen a dadansoddi defnydd iaith ynddynt. Yn yr ail bapur byddi di yn darllen ac ysgrifennu darnau fydd yn dangos dy fod yn gallu mynegi barn a chyflwyno gwybodaeth.



O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Os wyt am fwy o wybodaeth gallu di drafod gyda dy athrawes Saesneg, y Pennaeth Adran neu ymweld gyda'r dudalen we ganlynlol: www.cbac.co.uk

Saesneg (Llen)

Pam astudio'r pwnc?

Mae Saesneg yn bwnc orfodol yng Nghyfnod Allweddol 4 a roddir y siawns i ran helaeth o flwyddyn 11 sefyll arholiadau TGAU Llen ble gei di'r siawns i edrych ar amryw o destynau llenyddol y'u ysgrifennir yn Saesneg ar draws y canrifoedd.



A oes gwaith cwrs neu dasgau o dan reolaeth yn y pwnc?

Bydd yn rhaid i ti gwblhau 2 dasg o dan reolaeth yn yr ysgol ac mae'r tasg hyn werth 25% o farciau terfynol y cwrs. Byddi di yn cael gwybodaeth mlaen llaw am ofynion y dasg a bydd dy athrawes yn dy baratoi ar gyfer yr asesiad. Yn ogystal, bydd yr hawl gyda thi i gynllunio dy syniadau a defnyddio'r cynllun yn ystod y sesiwn ysgrifennu.

Cyswllt:
Mrs
Llinos M
Jones

Pa haen arholiad byddaf yn sefyll?

Bydd dy athrawes yn penderfynu, ym mlwyddyn 11, pa haen arholiad y byddi di yn sefyll wedi ystyried safon dy waith a dy ymroddiad yn ystod y cwrs.

Beth yw cynnwys y cwrs?

Wrth astudio'r cwrs hwn byddi di'n cael y cyfle i ddatblygu dy sgiliau darllen ac ysgrifennu. Byddi di yn dadansoddi sut mae'r iaith hon yn cael ei defnyddio yn ysgrifenedig drwy astudio amryw o destunau llenyddol. Hefyd bydd disgwyl i ti ddangos dy allu i ddadansoddi ac i ddangos empathi gan fynegi dy hun yn effeithiol ac yn fanwl drwy astudio barddoniaeth, dramâu a nofelau.

A oes arholiad yn y pwnc?

Ar ddiwedd y cwrs bydd 2 arholiad o 2 awr yr un. Bydd yr arholiadau hyn werth 75% o holl farciau'r cwrs. Yn y papur cyntaf asesir dy allu di i ddadansoddi nofel o'r ugeinfed ganrif yn ogystal ag ysgrifennu ymateb i farddoniaeth. Yn yr ail bapur byddi di yn ymateb i nofel clasurol a drama o'r ugeinfed ganrif.

O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Os wyt am fwy o wybodaeth gallu di drafod gyda dy athrawes Saesneg, y Pennaeth Adran neu ymweld gyda'r dudalen we ganlynol: www.cbac.co.uk





Sbaeneg

Pam astudio'r pwnc?

Mae TGAU Sbaeneg yn ddewis doeth am nifer fawr o resymau:

- Mae'n sgil werthfawr.
- Mae'n ateb gofynion nifer fawr o gyflogwyr.
- Mae'n galluogi disgyblion i astudio iaith dramor fel rhan o'u gradd.
- Mae'n cynnig llw o brofiadau newydd.
- Mae'n gyfle amhrisiadwy i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau pobl a gwledydd eraill.



Beth yw cynnwys y cwrs?

Yn ystod y cwrs rydym yn astudio nifer o themâu, rhai cyfarwydd i'r disgyblion ac rhai anghyfarwydd. Themâu megis: adloniant a hamdden, iechyd a ffitrwydd, bwyd a diod, gwyliau a dathliadau, amgylchedd, profiad gwaith, hunan a pherthnasedd, technoleg a chyfryngau cymdeithasol, materion cymdeithasol, bywyd ysgol a themâu diwylliannol am y gwledydd lle siaradir Sbaeneg.



Beth yw asesiadau'r cwrs?

Mae pedair rhan i'r asesiadau.

Uned 1: Siarad - 25% Bydd un prawf llafar: chwarae rôl; trafodaeth am lun ar gerdyn; sgwrs. Bydd y prawf yn para am 10-12 munud i'r haen uwch a 7-9 munud i'r haen sylfaenol. Gyda'r athro pwnc bydd y disgyblion yn cyflawni'r prawf hwn.

Uned 2: Gwranddo - 25% Arholiad terfynol haf blwyddyn 11. Mae dwy haen: sylfaenol ac uwch.

Uned 3: Darllen - 25% Arholiad terfynol haf blwyddyn 11 - Mae dwy haen: sylfaenol ac uwch.

Uned 4: Ysgrifennu - 25% Arholiad terfynol haf blwyddyn 11 - Mae dwy haen: sylfaenol ac uwch.

Cyswllt:
Mr
Gwyn
Jones

A wyddoch chi?

- ❖ Mae gwledydd eraill Ewrop yn dilyn polisi 1+2, sef astudio eu hiaith gyntaf ac yna ddwy iaith arall.
- ❖ Mae rhai prifysgolion yn dweud bod rhaid cael TGAU iaith dramor er mwyn astudio rhai cyrsiau yno.
- ❖ Mae'n rhaid astudio iaith dramor yn yr ysgol gynradd yn Lloegr.
- ❖ Mae TGAU iaith dramor yn rhan o'r BAC.

O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Os wyt am fwy o wybodaeth gallu di drafod gyda dy athro Sbaeneg, y Pennaeth Adran neu ymweld gyda'r dudalen we ganlynol:

www.cbac.co.uk

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Pam astudio'r pwnc?

Mae TGCh yn addas i chi sy'n bwriadu astudio TGCh Lefel A cyn mynd ymlaen i ddilyn cwrs addysgu uwch neu yrfa mewn TGCh / Cyfrifiaduro neu faes cysylltiedig. Byddwch yn gallu elwa o'r sgiliau a ddatblygwyd yn y cwrs wrth i chi baratoi ar gyfer cyflogaeth a byd gwaith yn y dyfodol. Mae TGCh yn 5 gwrs y bythefnos. Mae'r cwrs yn annog chi i ddatblygu eich meddwl beirniadol ac ystyried a gwerthfawrogi rôl TGCh yn y byd rydyn ni'n byw ynddo.

A fyddaf yn cael fy setio yn y pwnc?

Ni fydd setiau yn TGCh a bydd pawb yn dilyn yr un gwaith ac yn cael mynediad i'r un haen yn yr arholiad.

Beth yw cynnwys y cwrs?

Mae 4 uned i'r cwrs llawn, dau uned theori (1 a 3) a dau uned gwaith cwrs (2 a 4):

Uned 1 – **Deall TGCh** yng nghyd-destun y cartref a'r ysgol (Arholiad 1½ awr)

Uned 2 – **Datrys problemau gyda TGCh**. (22½ awr)

Mae'r asesiad dan reolaeth hwn yn cynnwys portffolio o waith sy'n asesu cyfathrebu drwy ebost, creu cyflwyniadau, taenlenni a chronfeydd data.

Uned 3 – **Cymhwysiad TGCh mewn sefydliadau** busnes a diwydiant (Arholiad 1½ awr)

Uned 4 – **Datblygu Datrysiadau TGCh Amlgyfrwng**

Bydd yr asesiad dan reolaeth hwn yn rhoi cyfle i chi ddatblygu darn o waith gan ddefnyddio meddalwedd amlgyfrwng gan ddilyn briff bydd CBAC yn ei gyhoeddi.

A oes gwaith cwrs neu dasgau o dan reolaeth yn y pwnc?

Mae yna waith cwrs o dan reolaeth yn TGCh, ac mae'n werth 60% o'r marc terfynol. Os byddwch yn dewis dilyn y cwrs llawn bydd Uned 2 yn cael ei gwblhau ym mlwyddyn 10 ac Uned 4 ym mlwyddyn 11.

Cyswllt:
Mr
Mark
Morris

Pa haen arholiad byddaf yn sefyll?

Dim ond **un** haen sydd. Bydd pawb yn dilyn yr un gwaith ac yn eistedd yr un arholiad.

A oes arholiad yn y pwnc?

Bydd arholiad allanol ar Uned 1 ar ddiwedd blwyddyn 10 ac arholiad allanol terfynol ar Uned 3 ar ddiwedd blwyddyn 11.



O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Os ydych am fwy o wybodaeth gallwch drafod gyda Mr Morris neu ymweld gyda'r dudalen we www.cbac.co.uk a dewis TGAU TGCh.



Twristiaeth

Pam ddylem i astudio'r pwnc?

Mae'r diwydiant hamdden a thwristiaeth yn un sydd yn datblygu'n gyflym iawn ac sy'n cyflogi dros dwy filiwn o bobl. Drwy astudio'r pwnc byddi yn dysgu am gyllid, hysbysebu a rheoli sefydliadau yn y diwydiant a bydd cyfle i astudio nifer o gyrchfannau Twristiaeth Byd Eang. Mae cymhwyster yn y pwnc hwn yn gallu arwain at waith mewn amryw faes megis hyfforddwr sgio, cynrychiolydd gwyliau dramor, rheolwr gwesty a llawer mwy.

A fyddaf yn cael fy setio yn y pwnc?

Byddi di yn cael dy ddysgu mewn grwp gallu cymysg.

Beth yw cynnwys y cwrs?

Byddi di yn astudio tair uned o waith sef:

Uned 1: Profiad y Cwsmer

Uned 2: Busnes Twristiaeth

Uned 3: Datblygu Cyrchfannau i dwristiaid yn y DU.

A oes gwaith cwrs neu dasgau o dan reolaeth yn y pwnc?

Bydd yn rhaid i ti gynhyrchu Portffolio o waith fel tystiolaeth asesu ar gyfer un o'r unedau megis Parc Thema Oakwood neu Caerdydd a bydd hwn yn werth 60% o dy farc terfynol yn y pwnc.

A oes arholiad yn y pwnc?

Bydd Uned 2 yn arholiad 1 awr a 30 munud.

Cyswllt:
Mrs
Eirlys
Thomas

Pa haen arholiad byddaf yn sefyll?

Yn Hamdden a Thwristiaeth dim ond un haen arholiad sy'n bodoli.

O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Gallu di wneud ymchwil ar wefan CBAC
(www.cbac.co.uk)





YSGOL GYFUN GYMRAEG BRO MYRDDIN
WWW.YGGBM.ORG